PECYNNAU YMGYRCHOEDD

BETH MAE YMGYRCH YN EI OLYGU?

Yn ôl yr NCVO 'Mae ymygyrchu yn ymwneud â chreu newid. Gellid ei alw'n dylanwadu, lleisio, pleidio achos neu ymgyrchu, ond yn eu hanfod mae'r holl weithgareddau hyn am greu newid'. Mae'n bwysig nodi ei fod ar wahân i 'codi ymwybyddiaeth' oherwydd ei fod yn cael effaith wirioneddol.

CYNNWYS:

1. Adnabod y Mater
2. Adnabod eich Targedau a'ch Ffynnonellau Pŵer
3. Magu Cymuned
4. Magu a Hyrwyddo eich Ymgyrch
5. Myfyrio ac Adeiladu
6. Adnoddau Ychanwegol

SUT MAE DEFNYDDIO'R PECYN HWN

Angerddol am fater? Eisiau gwneud newid ond ddim yn siŵr sut i ddechrau? Dyma'r pecyn i chi. Mae'n canolbwyntio ar fagu pŵer gyda'n gilydd a sut i greu ymgyrch effeithol un ai o fewn strwythurau'r brifysgol neu'r tu hwnt

“Ni yw'r newid ac mae'r newid yn nesáu.”

Greta Thunberg

1 ADNABOD Y MATER

Mae'n hanfodol eich bod yn deall y problem rydych chi'n ceisio newid a'r canlyniadau rydych chi am eu gweld yn glir

Y GOEDEN BROBLEM

Gwreiddiau, boncyff, canghennau! Dechreuwch wrth ysgrifennu'r problem ar boncyff y goeden, o dan y problem ysgrifennwch wreiddiau'r problem, ac uwchben y problem, ysgrifennwch ganynliadau'r problem ar y canghennau.



CODEN YR ATEB



Gwreiddiau, boncyff, ffrwyth! Ystyriwch y pethau a fyddai'n newid gwreiddiau'r problem, defnyddiwch y boncyff i leoli eich gweledigaeth a ffrwythau'r goden fydd effeithiau'r newid.

Pethau a allai newid gwreiddiau'r mater

NODAU Clyfar

Penodol - Pwy, beth, pam a sut: ystyriwch ddyddiadau, ystadegau ayyb.
Mesuradwy - Ystyriwch yr effaith wirioneddol, sut fyddwch yn mesuro llwyddiant?
Cyraeddadwy- A fydd yn bosib gyda'r adnoddau a'r pŵer sydd gennych?
Perthnasedd - Pa mor eang yw'r mater ac ar bwy mae'n effeithio?
Amser - Beth fydd y cyfyngiadau amser?

Er enghraifft: nid yw "rydym eisiau i marcio fod yn ddi-enw yn y brifysgol' yn glyfar.

'Rydym am i 65% o'r cyrsiau a dargedwyd redeg system marcio di-enw erbyn diwedd y flwyddyn academaidd 2021/2022' dyma glyfar.

2 ADNABOD EICH TARGEDAU A FFYNNONELLAU PWER

Defnyddio'r offer Lleoli Pŵer i adnabod y ffynnonellau pŵer y mae rhaid i chi ganolbwyntio arnynt er mwyn llwyddo. Pwy fydd yn gynghreiriaid i chi a phwy fydd eich targedau?

AR BA SEFYDLIAD(AU) Y DYLECH GANOLBWYNTIO?



BLE DYLECH CHI OSOD EICH PENDERFYNWYR



O fewn strwythurau y Brifysgol mae'n hawdd i fyfyrwyr deimlo'n ddi-rym ond cofiwch eich pŵer personol - nid yw cryfder yn beth strwythurol yn unig felly gennych chi mae'r gallu i wneud gwahaniaeth!

3 MAGU CYMUNED

y tu ôl i bob ymgyrch llwyddiannus mae tîm ymroddgar

RECRIWTIO

Ystriwch eich ffrindiau, wrth gwrs, ond ceisiwch feddwl yn ehangach:

- Clybiau Chwaraeon / Chymdeithasau
- Cyrsiau Perthnasol
- Swyddogion UM (Swyddogion llawn amser a gwirfoddol)
- Darlithwyr a/neu diwtoriaid personol
- Eich cynrychiolydd academaidd

PENODI

Defnyddiwch sgiliau a phrofiadau aelodau penodol eich tîm

Oes rhywun sy'n astudio mathemateg ac yn dda gydag Excel neu a oes rhywun sy'n hen law ar y cyfryngau cymedithasol?

COFNODI

Nodwch bwy sydd wedi cytuno i wneud beth a phryd

Beth am dogfen Google a rennir fel bod pawb yn y tîm ar yr un dudalen?

YSGOGI

Creu targedau rydych chi'n gallu cyrraedd, annogwch eich gilydd a dathlwch y llwyddiannau ar hyd y ffordd.

- Trefnu cyfarfodydd wythnosol/misol i ddal lan
- Cydnabod gwaith caled aelodau'r tîm

ATGOFFA

O dro i dro, bydd eich aelodau tîm mwyaf dibynnol yn anghofio'r cyfarfod hwnnw ar y Sadwrn

Mae cyfathrebu'n barhaol yn allweddol - beth am galendr outlook rydych chi'n rhannu neu grŵp Facebook?

4 MAGU A HYRWYDDO EICH YMGYRCH

Unwaith i chi greu sylfeini eich ymgyrch, mae'n bryd i chi feddwl am ledaenu'r gair ac i ddefnyddio dulliau ymgyrchu gwahanol!

PA DDULLIAU ALLWCH CHI EU DEFNYDDIO?

- Eistedd mewn a marw mewn
- Deisebau
- Cyflwyno syniad i'r Senedd
- Perfformiadau Dawns / Theatr
- Lobïo
- Protestio
- Ffotograffiaeth
- Comedi
- Murluniau
- Straeon Personol
- Ffilmau
- Zines
- Gweithdai

Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Bydd eich Cydlynydd Ymgyrchoedd a Democratiaeth yn eich helpu i gefnogi postio ar sianeli'r UM lle bo'n bosib.

Peidiwch ag anghofio i ofyn am ganiatâd cyn rhannu lluniau / barn rhywun.

Mae sianeli'r UM yn ddwyieithog, felly mae hyn yn golygu y dylai pob post gynnwys y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r UM yn gallu cefnogi cyfieithu ond cofiwch yr amser ychwanegol i weithio ar y peth.

BYDDWCH YN WEITHGAR A SIARADWCH A MYFYRWYR!

- Ystyriwch gwestiynau agored i gychwyn sgwrs yn hytrach nag atebion ie/na
- Cymerwch bob adnorth o ddifri a chofiwch y rhai o grwpiau rhyddid sydd a phrofiad gwahanol i chi.

GWERTHU'R SYNIAD I FYFYRWYR O FEWN MUNUD

DICTER: Ysgogi ymateb crac

GOBAITH: Esbonio sut y gallai pethau wella

GWEITHREDU: Annog gweithredu ar unwaith ee llofnodi deiseb

5 MYFYRIO AC ADEILADU

Byddwch yn onest i chi eich hun a'ch tîm

Beth sy'n mynd yn arbennig o dda?

A oes targedau neu gynghreiriaid newydd i'w hystyried?

PETHAU SY'N MYND YN DDA

CAMGYMERIADAU ALLWEDDOL I'W HOSGOI:

1. Nodau ac amcanion aneglur
2. Cynllunio gweithgareddau cyn (neu heb) gosod nod
3. Diffyg tystiolaeth bod yna broblem
4. Gwneud pethau ar eich pen eich hunan
5. Targedu'r penderfynwyr anghywir
6. Negeseuon nad oes gan fyfyrwyr ots amdanynt
7. Anghofio myfyrio ar hyd yr ymgyrch

Beth gallech chi ei wneud yn wahanol y tro nesaf?

Ydy pethau yn cadw at eich amserlen wreiddol?

PETHAU Y GALLEM WNEUD YN WAHANOL

COFIWCH OFALU AMDANOCH CHI EICH HUN

Peth chwyldroadol yw cael seibiant - trefnwch amser i ffwrdd o'ch ymgyrch!

Gallwch gysylltu â'n Tîm Ymgynghori undeb.cyngor@aber.ac.uk ar gyfer cymorth ychwanegol

“Mae gofalu amdanaf fy hun ... yn rhyfela gwleidyddol”

Audre Lorde

ADNODDAU YCHWANEGOL

AR-LEIN:

Hwb Ymgyrchoedd UMAber

https://wonkhe.com

https://advocatesforyouth.org/wp-content/uploads/2019/04/Youth-Activist-Toolkit.pdf

https://www.ncvo.org.uk/policy-and-research/campaigning-policy

CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL:

Llywydd yr UM : prdstaff@aber.ac.uk

Cydlynydd Ymgyrchoedd a Democratiaeth: llaisum@aber.ac.uk

Cliciwch yma i ddod o hyd i'ch swyddog gwirfoddol perthnasol

Os oes angen arnoch gael y canllaw hwn mewn fformat arall e-bostiwch llaisum@aber.ac.uk